# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 24 Ionawr 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog cyswllt:** | Sioned Williams<br>Pennaeth Economi a Chymuned<br><br>Dylan Griffiths<br>Rheolwr Gwasanaeth Datblygu'r Economi |
| **Manylion cyswllt:** | sionedewilliams@gwynedd.llyw.cymru<br>01286 679547 \| MSTeams<br><br>dylanrhysgriffiths@gwynedd.llyw.cymru<br>01286 679611 \| MSTeams |
| **Teitl yr Eitem:** | CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG:<br>TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDU |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cytuno fod Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â'r rôl 'awdurdod arweiniol' ar gyfer gweithredu Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngogledd Cymru ar ran chwe sir y Gogledd.

1.2. Cytuno i'r trefniadau llywodraethu rhanbarthol ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngogledd Cymru fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.

1.3. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr – i sefydlu cytundeb cyfreithiol rhyng-awdurdod ac amodau ariannu gyda siroedd eraill Gogledd Cymru i warchod buddiannau Cyngor Gwynedd.

1.4. Cytuno i'r trefniadau llywodraethu lleol ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngwynedd fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.

1.5. Awdurdodi sefydlu Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd i gynnwys Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol i gadarnhau pa gynlluniau fydd yn cael eu dewis i dderbyn arian ar sail y meini prawf nodir yn adrannau 3.30 a 3.31 yr adroddiad.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UK Shared Prosperity Fund / UKSPF) yw un o'r cronfeydd amgen sefydlwyd gan Lywodraeth y DG yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

2.2. Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet y Cyngor ar 19 Gorffennaf 2022 (Eitem 7) yn amlinellu cefndir a chynnwys yr UKSPF a'r gofynion o ran sicrhau mynediad i'r arian.

2.3. Fel cam gyntaf, cyflwynwyd 'Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol' ar gyfer Gogledd Cymru ar 01 Awst 2022 yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer defnydd y cyllid a'r bwriad ar gyfer ei weinyddu.

2.4. Ar 05 Rhagfyr 2022, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth y DG fod Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ei ddilysu.

2.5. Bellach mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025, ynghyd â Llythyrau Penderfyniad Grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 wedi dod i law.

2.6. Gyda hyn mae angen cadarnhau'r trefniadau llywodraethu a gweithredu ar gyfer yr UKSPF yng Ngwynedd ac yng Ngogledd Cymru.

## 3. CYFLWYNIAD

3.1. Cyhoeddwyd prosbectws Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UKSPF) ar 13 Ebrill 2022. Bydd y Gronfa yn dosbarthu £2.6 biliwn o gyllid ar draws y DG erbyn Mawrth 2025.

3.2. Bydd pob rhan o'r DG yn derbyn rhan o'r arian gyda'r cyllid wedi ei ddethol i ardaloedd unigol ar sail fformiwla.

3.3. Yn Lloegr, bydd y cyllid yn mynd yn uniongyrchol i siroedd unigol i'w ddefnyddio neu ddosbarthu i sefydliadau eraill. Yng Nghymru (a'r Alban), mae'n ofynnol i ardaloedd lleol gydweithio gydag eraill o fewn eu rhanbarth (Gogledd Cymru yn achos Gwynedd).

3.4. Dyraniad Gwynedd ar gyfer y cyfnod hyd at Fawrth 2025 yw £24.4 miliwn. Mae £4.2 miliwn o'r cyfanswm wedi ei warchod i gefnogi oedolion wella eu sgiliau rhifedd.

3.5. Mae'r dyraniad i Wynedd yn rhan o £126.46 miliwn sydd wedi ei ddyrannu i siroedd Gogledd Cymru.

3.6. Un 'awdurdod arweiniol' fydd yn atebol am yr arian ar ran rhanbarth. Mae Prif Weithredwyr y Gogledd wedi gofyn i Gyngor Gwynedd - gyda

chefnogaeth Swyddfa Rheoli Rhaglen, Uchelgais Gogledd Cymru - gyflawni'r rôl.

3.7. Er bod pwyslais ar gydweithio rhanbarthol yng nghyd-destun yr UKSPF, gwneud gwahaniaeth i fywydau trigolion *lleol* yw'r perwyl ac mae pob sir yng Ngogledd Cymru yn gytûn:

- fod angen i ardaloedd elwa yn unol â gwerth eu dyraniad unigol;
- mai mater i ardaloedd lleol yw penderfynu ar ddefnydd eu cyllid; ac,
- fod angen i ardaloedd lleol ddewis bod yn rhan o gynlluniau sy'n dymuno gweithredu ar draws siroedd.

3.8. O ran dyrannu'r gyllideb mae canllawiau Llywodraeth y DG yn caniatáu'r dulliau canlynol:

- grantiau cystadleuol (yr opsiwn a ffafrir gan Llywodraeth DG);
- caffael / comisiynu; a,
- cyflawni'n uniongyrchol

3.9. Gan adlewyrchu'r gofynion, mae siroedd y Gogledd yn gytûn mai drwy grantiau cystadleuol dylid dyrannu yr arian yn arferol, gyda disgresiwn i siroedd unigol ddewis defnyddio'r dulliau amgen petai'r angen yn codi.

## Swyddogaethau Cyngor Gwynedd gyda'r UKSPF

3.10. Yng ngoleuni'r uchod, bydd tair swyddogaeth gan Gyngor Gwynedd gyda'r UKSPF:

a) gweinyddu a rheoli'r UKSPF <u>yn rhanbarthol</u> ar ran siroedd Gogledd Cymru gan gyfarch gofynion Llywodraeth y DG;

b) gweinyddu a rheoli'r UKSPF <u>yn lleol</u> (fel siroedd eraill y Gogledd); a,

c) yn yr un modd â sefydliadau eraill, ymgeisio am adnoddau o'r UKSPF a gweithredu cynlluniau petai ceisiadau'r Cyngor yn llwyddo.

3.11. Y ddwy swyddogaeth gyntaf sydd dan sylw yn yr adroddiad yma. Bydd ceisiadau gan Gyngor Gwynedd am adnoddau o'r UKSPF yn ddarostyngedig i drefniadau arferol y Cyngor ar gyfer cymeradwyo ceisiadau ariannol.

## Y dyletswyddau i'w cyflawni'n sirol ac yn rhanbarthol

3.12. Dyma grynodeb o'r prif dasgau sydd i'w cyflawni'n sirol ac yn rhanbarthol o ran rheoli a gweinyddu'r UKSPF yng Ngogledd Cymru:

| **Rhanbarthol**<br>(Cyngor Gwynedd) | **Sirol**<br>(chwe sir y Gogledd gan gynnwys Cyngor Gwynedd) |
|---|---|
| • Hyrwyddo'r UKSPF yn rhanbarthol<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol<br>• Hwyluso datblygu prosiectau rhanbarthol<br>• Darparu cyngor a chefnogaeth i ymgeiswyr a noddwyr ceisiadau llwyddiannus (cynlluniau yn gweithredu ar draws sawl sir)<br>• Derbyn ceisiadau a'u dosbarthu i siroedd perthnasol<br>• Casglu adborth rhanddeiliaid ar geisiadau yn gweithredu ar draws sawl sir<br>• Asesu a yw ymgeiswyr yn addas i dderbyn arian UKSPF (cynlluniau yn gweithredu ar draws sawl sir)<br>• Monitro perfformiad y rhaglen yn rhanbarthol<br>• Cynnal strwythurau llywodraethu rhanbarthol<br>• Rhyddhau llythyrau cynnig i ymgeiswyr llwyddiannus ar ran y siroedd sy'n eu cymeradwyo<br>• Rhyddhau, derbyn a phrosesu hawliadau cynlluniau<br>• Monitro perfformiad prosiectau unigol<br>• Coladu gwybodaeth monitro cynlluniau ac adrodd yn ôl y gofyn.<br>• Sicrhau fod yr UKSPF yng Ngogledd Cymru yn gweithredu yn unol â gofynion Llywodraeth y DG<br>• Cynnal perthynas gyda Llywodraeth y DG | • Hyrwyddo'r UKSPF yn lleol<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol<br>• Hwyluso datblygu prosiectau lleol<br>• Darparu cyngor a chefnogaeth i ymgeiswyr a noddwyr ceisiadau llwyddiannus (cynlluniau yn gweithredu o fewn un sir yn unig)<br>• Cynnal partneriaeth leol i gynghori ar flaenoriaethau<br>• Derbyn ceisiadau (drwy law'r awdurdod arweiniol)<br>• Casglu adborth rhanddeiliaid ar geisiadau<br>• Blaenoriaethu ceisiadau a dewis prosiectau<br>• Asesu a yw ymgeiswyr yn addas i dderbyn arian UKSPF (cynlluniau yn gweithredu o fewn un sir yn unig)<br>• Monitro perfformiad y rhaglen yn lleol |

| **Rhanbarthol**<br>(Cyngor Gwynedd) | **Sirol**<br>(chwe sir y Gogledd gan gynnwys Cyngor Gwynedd) |
|---|---|
| • Cyflwyno hawliadau ac adroddiadau i Lywodraeth y DG<br>• Gwerthuso'r perfformiad yr UKSPF yng Ngogledd Cymru. | |

3.13. I gyflawni'r dyletswyddau uchod bydd angen sicrhau fod trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu sefydlu, fod cytundeb priodol rhwng siroedd y Gogledd ac adnoddau ariannol a staff digonol i gyflawni'r gwaith.


3.14. Mae cytundeb cyfreithiol yn cael ei sefydlu rhwng Cyngor Gwynedd a siroedd y Gogledd i warchod buddiannau'r Cyngor. Bydd y cytundeb yn gwarantu fod siroedd unigol yn atebol am eu penderfyniadau a'r atebolrwydd ariannol fydd yn deillio o hynny.

3.15. Yn gyfochrog, mae'r chwe sir wedi bod yn gweithio ar y cyd i sicrhau fod strwythurau llywodraethu priodol - a thimau /cyllidebau addas - yn cael eu sefydlu'n rhanbarthol ac ymhob sir i reoli a monitro'r rhaglen (caniateir defnydd cyfran o'r dyraniad ariannol i sicrhau adnoddau priodol i gyflawni'r gwaith).

### Strwythurau llywodraethu ac adnoddau gweinyddu rhanbarthol

3.16. Mae'n anorfod y bydd angen sefydlu tîm o swyddogion yn benodol i sicrhau fod y tasgau a amlinellwyd yn 3.10 uchod yn cael eu cyflawni a bod buddiannau Cyngor Gwynedd fel awdurdod arweiniol - a holl siroedd y Gogledd - yn cael eu gwarchod.

3.17. I'r perwyl, bydd y pump swydd ganlynol yn cael eu creu dros dro - gan ddefnyddio'r gyllideb weinyddol sydd ar gael o'r UKSPF - i weinyddu a rheoli'r UKSPF yng Ngogledd Cymru:




3.18. Yn ogystal â'r uchod bydd cyllidebau penodol yn cael eu sefydlu ar gyfer cyfarch y costau canlynol:

- Gorbenion / teithio a chynhaliaeth
- Cyfreithiol
- Cyllid
- Gwerthuso
- Cyfathrebu a marchnata

3.19. Bydd cyllideb hefyd yn cael ei gadw wrthgefn yn y tymor byr i leihau'r risg o gostau annisgwyl gan fod gofynion Llywodraeth y DG yn parhau i esblygu.

3.20. I gefnogi'r swyddogion yn eu gwaith ac i sicrhau goruchwyliaeth briodol o'r gronfa, bwriedir sefydlu'r strwythur llywodraethu canlynol gan esblygu'r trefniadau sydd eisoes yn eu lle ar gyfer datblygu cynigion Gogledd Cymru ar gyfer yr UKSPF:




## Strwythurau llywodraethu ac adnoddau gweinyddu sirol Gwynedd

3.21. Yn yr un modd, mae angen sicrhau adnodau priodol i alluogi'r Cyngor gyflawni'r rôl sirol a amlinellwyd yn 3.10 uchod.

3.22. Mae'r gofynion sirol yn llai na'r gofyn yn rhanbarthol, gan adlewyrchu hyn, dim ond un swydd llawn amser bwriedir ei sefydlu sef Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd, gyda diwrnod yr wythnos o amser i gefnogi monitro, gwerthuso a chydymffurfiaeth yn lleol a diwrnod yr wythnos o adnodd gweinyddol yn cael eu darparu o blith staff presennol y Cyngor.

3.23. Eto yn lleol bydd cyllidebau penodol yn cael eu sefydlu ar gyfer cyfarch y costau gorbenion / teithio a chynhaliaeth; cyfreithiol; cyllid a chyfathrebu / marchnata; a chyllideb yn cael ei gadw wrth-gefn yn y tymor byr i leihau'r risg o gostau annisgwyl.

3.24. Bydd yr holl gostau lleol ar gyfer gweinyddu'r UKSPF yn cael eu talu gan y gronfa.

3.25. O ran llywodraethu a blaenoriaethu cynlluniau sydd yn dymuno derbyn arian o'r UKSPF mae canllawiau Llywodraeth y DG yn glir mae awdurdodau lleol sydd yn atebol am yr arian a'i ddefnydd ac felly'n gyfrifol am benderfynu pa geisiadau fydd yn cael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, mae'n ofynnol, fod awdurdodau yn derbyn mewnbwn ystod ehangach o rhanddeiliaid wrth flaenoriaethu ceisiadau.

Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd

3.26. I'r perwyl, mae'r Cyngor wedi dod a phartneriaeth leol - Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd - ynghyd, gan gynnwys randdeiliaid lleol allweddol yn cynrychioli'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector:

- Cyngor Gwynedd
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Grŵp Llandrillo-Menai
- Prifysgol Bangor
- Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr
- Mantell Gwynedd
- Rhwydwaith Mentrau Cymunedol Gwynedd
- Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Gwynedd
- Y Ffederasiwn Busnesau Bach
- Rhwydwaith Busnes Gwynedd

3.27. Mae'r Grŵp wedi bod yn cwrdd ar sail gysgodol ers yr Hydref er mwyn datblygu dealltwriaeth a chydsyniad eang i fwriadau'r Cyngor o ran gweinyddu'r UKSPF yng Ngwynedd.

3.28. Bydd argymhellion Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd yn cael eu cyflwyno i sylw'r Cyngor i'w hystyried ac i ddod i benderfyniad terfynol a bwriedir sefydlu panel mewnol yn benodol i gyflawni'r dasg.

Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd

3.29. Bydd aelodaeth 'Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd' yn cynnwys Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol.

3.30. Bydd y Panel yn ystyried argymhellion y Grŵp Ymgynghorol gan roi sylw i'r meini prawf canlynol yng nghyswllt y cynlluniau unigol:

- Cymhwysedd y cynnig ar gyfer yr UKSPF a'i berthnasedd i Amcanion y Gronfa
- Perthnasedd y cynnig i amcanion strategol y sir a'i gyfraniad i'w cyflawni
- Gallu'r ymgeisydd i gyflawni ac ymarferoldeb y cynnig
- Gwerth am arian / canlyniadau'r cynnig
- Ychwanegedd y cynnig i weithgaredd presennol / arfaethedig

3.31. Bydd y Panel hefyd yn ystyried cydbwysedd y detholiad o weithgaredd fydd yn derbyn cefnogaeth drwy law'r UKSPF yn ei gyfanrwydd.

3.32. Bydd yr Aelodau Etholedig ar y Panel yn eithrio eu hunain o drafod cynllun wedi leoli o fewn eu hetholaeth neu ble mae buddiant personol yn y cais. Dylid ystyried cyfeirio sefyllfa o'r fath i'r Cabinet am benderfyniad er sicrhau priodoldeb a thryloywder

3.33. Bydd ceisiadau sydd yn cynrychioli risg uchel i'r Cyngor yn sgil asesiad yn cael eu cyfeirio i'r Cabinet

## Y drefn ymgeisio a dewis prosiectau

3.34. Yn fras, bydd y drefn ar gyfer derbyn a dewis ceisiadau yn dilyn y camau canlynol:

Cam un
Ymgeiswyr yn cyflwyno ceisiadau cryno o fewn cyfnod penodol (drwy law porth ar y we sy'n gyffredin i bob sir). Ceisiadau yn cael eu dosbarthu gan y tîm rhanbarthol i siroedd perthnasol.

Cam dau
Tîm lleol (a rhanbarthol yn achos cynlluniau yn dymuno gweithredu ar draws sawl sir) i asesu'r ceisiadau cryno.

Cam tri
Yng Ngwynedd, Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd i ystyried y ceisiadau a chynnig argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â pha brosiectau dylid eu blaenoriaethu.

Cam pedwar
Cyngor Gwynedd i benderfynu pa geisiadau i'w cefnogi / gwrthod yn y sir (Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd - i'w gadarnhau drwy law Taflen Penderfyniad Aelod Cabinet gan yr Arweinydd)

Cam pump
Ymgeiswyr llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn yn manylu ymhellach ar gynnwys y ceisiadau cryno.

Cam chwech
Siroedd i ddilysu'r ceisiadau llawn a chadarnhau penderfyniad.

Cam saith
Cyngor Gwynedd - yn ei rôl awdurdod arweiniol - i ryddhau llythyrau cynnig ar sail cyfarwyddyd gan y siroedd

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIADAU

4.1. Mae cynnwys yr adroddiad a'r penderfyniadau a argymhellir yn ffrwyth trafodaethau manwl rhwng siroedd y Gogledd.

4.2. Mae'r dull o weithredu yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng gwarchod buddiannau Cyngor Gwynedd yn ei rôl o fod yn awdurdod arweiniol ar gyfer Gogledd Cymru a chaniatáu dull ymarferol o weithredu i'r siroedd unigol.

4.3. Er hyn mae angen bod yn ymwybodol fod nifer o faterion fydd angen parhau i'w rheoli drwy gydol oes gweithredu'r UKSPF, gan gynnwys:

- Y diffyg arweiniad a manyler mae Llywodraeth y DG wedi ei ddarparu ynglŷn â'u gofynion
- Y cyfnod afresymol o fyr sydd ar gael ar gyfer cyflawni'r rhaglen
- Y cymhlethdod anorfod sy'n deillio o'r dull gweithredu lleol / rhanbarthol mae'r UKSPF yn ei orfodi yng Nghymru
- Yr ansicrwydd sy'n deillio o ddarparu Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth ar gyfer cyfnod y rhaglen ond dim ond llythyrau cynnig ar gyfer un flwyddyn ariannol ar y tro. Mae hyn yn arbennig o wir yn 2022/23 gyda dim ond tri mis o'r flwyddyn ariannol yn weddill.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. O dderbyn cytundeb y Cabinet, bydd y drefn o dderbyn ceisiadau ar gyfer arian UKSPF yn cychwyn diwedd Ionawr gyda chyfnod penodol i ymgeiswyr gyflwyno eu ceisiadau cryno.

5.2. Gyda golwg ar y cyfnod byr sydd ar gael i gyflawni'r rhaglen anelir i ymrwymo dyraniad ariannol Gwynedd mor fuan â phosib - yn ddelfrydol cyn yr haf - i uchafu'r amser sydd ar gael i weithredu cynlluniau.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1. Mae'r cynigion ar gyfer rheoli a gweinyddu'r UKSPF yng Ngogledd Cymru fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad yn ffrwyth llafur cydweithio parhaus ymhlith siroedd y Gogledd ers cyfnod yr haf.

6.2. Fel nodwyd yn 3.27 mae Grŵp Cynghori Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd wedi bod yn cwrdd ar ffurf cysgodol ers yr Hydref er

mwyn sicrhau fod dealltwriaeth a chydsyniant eang i'r bwriad ar gyfer gweinyddu'r gronfa yng Ngwynedd.

6.3. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*"Wrth dderbyn y swyddogaeth awdurdod arweiniol mae Cyngor Gwynedd fel y nodir yn ymrwymo i amodau'r gronfa gyda' Llywodraeth y DG. Mae'n allweddol felly fod cytundebau rhwng awdurdod a grantiau yn caniatáu i Wynedd gyfarch unrhyw ofynion sydd yn disgyn ar Cyngor i gael sicrwydd a gwirio fod defnydd yr arian yn unol a'r amodau. Mae hyn yn gyfundrefn sydd yn hollol arferol mewn sefyllfa o'r fath ac yn adlewyrchiad o drefn rheoli a didoli risgiau yn briodol. Mae hefyd yn bwysig fod trefniadau gweinyddu y gronfa yng Ngwynedd yn dryloyw ac yn atebol. Mae'n hanfodol fod y Cabinet felly yn gosod disgwyliadau a fframwaith dirprwyedig eglur ar gyfer y gweinyddu gan gynnwys cadw rôl wrth gefn er sicrhau hyn."*

6.4. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

*"Mae'r adroddiad yn nodi (ym mharagraff 3.10) fod Cyngor Gwynedd â thair rôl unigryw wrth ymdrin â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DG. Bydd pob un o'r rolau hyn yn gofyn am sefydlu trefniadau llywodraethu a gweithredu cadarn er mwyn gwarchod buddiannau'r Cyngor; mae rôl y Cyngor fel awdurdod arweiniol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru yn enwedig yn creu risgiau unigryw. Credaf fod y trefniadau a gynhigir yn yr adroddiad hwn yn rhoi sylfaen gadarn er mwyn gallu symud ymlaen gyda cham nesaf y broses, a gwarchod buddiannau Cyngor Gwynedd. Byddaf yn gweithio gyda'm cyd-swyddogion wrth ddatblygu'r trefniadau."*